



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 11 Mawrth 2011
Tabled on 11 March 2011

Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i
Ddysgwyr (Cymru)
Proposed Safety on Learner Transport (Wales) Measure

Ieuan Wyn Jones

1

To insert a new section –

() Requirement for seat belts on buses used for learner transport

After section 14 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 insert–

“Safety on learner transport

() Requirement for seat belts on buses used for learner transport

- (1) A relevant body must ensure that every bus used for the learner transport it provides or otherwise secures is one that has a seat belt fitted to every passenger seat.
- (2) A person who provides learner transport secured by a relevant body must ensure that every bus used for such transport is one that has a seat belt fitted to every passenger seat.

- (3) A person who fails to comply with subsection (1) or (2) commits an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.
- (4) It is a defence to show that the failure to comply with subsection (1) or (2) was justified by exceptional circumstances.
- (5) Nothing in this section is to be interpreted as setting technical standards for a vehicle's construction or equipment which differ from the standards that would or might otherwise apply to that vehicle by virtue of any enactment or directly applicable requirement of European Union law.
- (6) In this section –
 - “bus” means a motor vehicle constructed or adapted to carry more than eight seated passengers in addition to the driver;
 - “enactment” means any of the following, whenever passed or made–
 - (a) an Act of Parliament;
 - (b) subordinate legislation made under an Act of Parliament;
 - (c) a provision of any such Act or subordinate legislation;
 - “seat belt” means a belt intended to be worn by a person in a vehicle and designed to prevent or lessen injury to its wearer in the event of an accident to the vehicle.”.

I ychwanegu adran newydd –

- (1) Gofyniad am wregysau diogelwch ar fysiau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr**
Ar ôl adran 14 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 rhodder–

“Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr

- (1) Gofyniad am wregysau diogelwch ar fysiau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr**
- (1) Rhaid i gorff perthnasol sicrhau bod pob bws a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr y mae'n ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall yn un y mae gwregys diogelwch wedi ei ffitio i bob sedd deithiwr.
 - (2) Rhaid i berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol sicrhau bod pob bws a ddefnyddir ar gyfer cludiant o'r fath yn un y mae gwregys diogelwch wedi ei ffitio i bob sedd deithiwr.
 - (3) Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag is-adran (1) neu (2) yn cyflawni tramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.
 - (4) Mae'n amddiffyniad i ddangos bod y methiant i gydymffurfio ag is-adran (1) neu (2) wedi ei gyfiawnhau oherwydd amgylchiadau eithriadol.

(5) Nid oes dim yn yr adran hon i'w ddehongli fel petai'n gosod safonau technegol ar gyfer gwneuthuriad neu gyfarpar cerbyd sy'n wahanol i'r safonau a fyddai neu a allai fod yn gymwys mewn modd arall i'r cerbyd hwnnw yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu unrhyw ofyniad yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwysadwy.

(6) Yn yr adran hon -

ystyr "bws" yw cerbyd modur sydd wedi ei wneuthur neu wedi ei addasu i gario mwy nag wyth o deithwyr ar eu heistedd yn ychwanegol at y gyrrwr;

ystyr "deddfiad" yw unrhyw un o'r canlynol, pryd bynnag y'I pasiwyd neu y'i gwnaed-

(a) Deddf Seneddol;

(b) is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Seneddol;

(c) darpariaeth mewn unrhyw Ddeddf neu is-ddeddfwriaeth o'r fath;

ystyr "gwregys diogelwch" yw gwregys sydd wedi ei fwriadu ar gyfer ei wisgo gan berson mewn cerbyd ac sydd wedi ei ddylunio i atal neu leihau anafiadau i'r sawl sy'n ei wisgo os bydd damwain i'r cerbyd."'. .

Ieuan Wyn Jones

2

Section 1, page 2, line 9, after 'may', insert 'make further provision to'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 10 ar ôl 'rheoliadau' ychwanegwch 'wneud darpariaeth bellach er mwyn'.

Ieuan Wyn Jones

3

Section 7, page 4, line 21, after 'by', insert 'section (insert reference to section to be inserted by amendment 1) and by'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 21 ar ôl 'gan', ychwanegwch 'adran '(mewnosoder cyfeiriad at yr adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 1) a chan'.

Ieuan Wyn Jones

4

Section 7, page 4, line 29, after 'of', insert 'section (insert reference to section to be inserted by amendment 1) and'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 28, ar ôl 'ddibenion', ychwanegwch 'adran '(mewnosoder cyfeiriad at yr adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 1) a'.

Ieuan Wyn Jones

5

Section 7, page 4, line 39, after '1978', insert '(including subordinate legislation made under a Measure or Act of the National Assembly for Wales)'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 39, ar ôl '1978' ychwanegwch '(gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru)'.

Ieuan Wyn Jones

6

Section 11, page 7, line 19, after 'section' insert '(insert reference to section to be inserted by amendment 1)'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 20, ar ôl 'adran' ychwanegwch "(mewnosoder cyfeiriad at yr adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 1)".

Ieuan Wyn Jones

7

Section 11, page 7, line 24, after 'section' insert '(insert reference to section to be inserted by amendment 1)'.

Adran 11, tudalen 7, llinell 25, ar ôl 'adran' ychwanegwch "(mewnosoder cyfeiriad at yr adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 1)".

Ieuan Wyn Jones

8

Section 13, page 8, after line 16, insert –

'(6) The Welsh Ministers may by order amend subsection (3) so as to omit the words from "but it does not include" to the end of the subsection.''

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 16, ychwanegwch –

'(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio is-adran (3) yn y fath fodd ag i hepgor y geiriau o "ond nid yw'n cynnwys" hyd at ddiwedd yr is-adran.''

Ieuan Wyn Jones

9

Adran 14, tudalen 8, llinell 28, ar ôl 'hepgorer' ychwanegwch 'adran 7'.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version)

Ieuan Wyn Jones 10

Adran 14, tudalen 8, llinell 28, gadewch allan ‘, adran 8, adran 14A, adran 14B, adran 14C, adran 14D, adran 14E, adran 14G neu adran’ a rhowch yn ei le ‘7, 8, 14A, 14B, 14C, 14D, 14E, 14G neu’.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version)

Ieuan Wyn Jones 11

Adran 14, tudalen 8, llinell 38, gadewch allan ‘adran 14B, adran 14C, adran 14D, adran 14E, adran 14G neu adran’ a rhowch yn ei le ‘14B, 14C, 14D, 14E 14G neu’.

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version)

Ieuan Wyn Jones 12

Section 14, page 8, after line 36, insert –

“() an order under section 14M(*insert reference to subsection to be inserted by amendment 8*),’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 39, ychwanegwch –

“() gorchymyn o dan adran 14M(*mewnosoder cyfeiriad at yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 8*),’.

Ieuan Wyn Jones 13

Section 15, page 9, after line 1, insert –

‘() Section (*insert reference to the section inserted by amendment 1*) comes into force on 1 October 2014.’.

Adran 15, tudalen 9, ar ôl llinell 1, ychwanegwch–

‘() Mae adran (*mewnosoder cyfeiriad at yr adran sy'n cael ei fewnosod gan ddiwygiad 1*) yn dod i rym ar 1 Hydref 2014.’.

Ieuan Wyn Jones 14

Section 15, page 9, line 2, after ‘The’, insert ‘remaining’.

Adran 15, tudalen 9, llinell 2, ar ôl ‘Daw’, ychwanegwch ‘gweddill’.